# GEM DU: Adroddiad Cymru 2015

Karen Bonner, Mark Hart a Jonathan Levie

Mae Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM) yn brosiect rhyngwladol yn cynnwys 62 economi yn 2015 sy'n ceisio darparu gwybodaeth ar dirlun entrepreneuraidd gwledydd. Mae sawl astudiaeth wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn yrrwr pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd, a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol o gwmpas y byd. Y maint sampl yng Nghymru oedd 2,977 o oedolion dros 18 oed yn 2015 wedi i Lywodraeth Cymru roi hwb i sampl genedlaethol y DU.

## Prif Ganfyddiadau

- **Y gyfradd ar gyfer entrepreneuriaeth gam cynnar (TEA) yng Nghymru ar gyfer 2015 oedd 6.8 y cant. Nid oedd hyn yn wahanol iawn i gyfradd 2014 o 7.1 y cant, nag amcangyfrifon 2015 o 7.2 y cant ar gyfer Lloegr a 7.1 y cant ar gyfer yr holl DU.**

- **TEA a yrrwyd gan angen yng Nghymru yn 2015 oedd 1.4 y cant, yn ddigyfnewid o gyfradd 2014. TEA a yrrwyd gan gyfle oedd 5.4 y cant, hefyd heb fod yn wahanol iawn i'r amcangyfrif o 5.6 yn 2014.**

- **Ar 4.6 fe wnaeth y gyfradd TEA fenyw yng Nghymru aros yn agos i'w gyfradd 2014, ond roedd hon i lawr o'r un uchaf erioed o 6.1 yn 2011. Nid oedd y gyfradd yn wahanol iawn i amcangyfrif y DU o 4.7 y cant. Fe wnaeth y gymhareb fenyw i wryw o TEA aros ar 52 y cant yn 2015; hefyd fe wnaeth cymhareb y DU aros ar 49 y cant.**

- **Mae'r gyfradd TEA ar gyfer pobl 18-24 oed yng Nghymru, ar 5.9 y cant, yn uwch, ond heb fod yn wahanol iawn, i gyfradd y DU o 3.9 y cant. Yn ystod blynyddoedd diweddar mae'r ddwy gyfradd wedi cydgyfeirio wedi cyfnod o gyfraddau TEA cynyddol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn ystod y dirwsagiad.**

- **Roedd y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifanc 18 i 29 oed yn sefyll ar 7.4 y cant yn 2015 tra oedd y gyfradd TEA ymhlith pobl 30 i 64 oed yn 6.6 y cant. Nid oedd y cyfraddau hyn yn wahanol iawn i'w gilydd, nag yn wahanol i gyfraddau priodol y DU o 6.0 y cant ar gyfer pobl 18-29 oed a 7.3 y cant ar gyfer pobl 30-64 oed.**

- **Roedd agweddau entrepreneuraidd yn gyson â'r rhai hynny a hysbyswyd yn 2014. Fe wnaeth canfyddiad cyfle'r boblogaeth o oedran gweithio nad oedd yn entrepreneuraidd aros ar 29.6 yng Nghymru. Fe wnaeth canfyddiad cyfle yn y DU weld newid ymylol yn unig o 36.8 y cant i 37.6 y cant, ond fe wnaeth aros yn sylweddol uwch na'r ganran ar gyfer Cymru.**

- **Roedd y ganran o unigolion nad oedd yn entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru a welodd gyfleoedd ond bod arnynt ofn cychwyn**

**busnes rhag ofn y byddai'n methu hefyd yn sefydlog ar 40.5 y cant yn 2015 (39.4 y cant yn 2014). Roedd ffigur y DU yn debyg ar 39.5 y cant (43.0 y cant yn 2014).**

- **Fe wnaeth y gyfran o oedolion nad oedd yn entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru sy'n disgwyl cychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf aros yn gyson ar 8.0 y cant (7.8% yn 2014). Fe wnaeth bwriadau i gychwyn busnes yn y DU gynyddu o 8.5 y cant i 9.6 y cant, ond nid oedd hwn yn newid oedd yn ystadegol arwyddocaol.**

# Cefndir

Seilir y Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM) ar y datganiadau dilynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n dibynnu'n uchel ar sector entrepreneuriaeth ddynamig. Yn ail, mae capasiti entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o bob grŵp mewn cymdeithas â'r gallu a'r brwdfrydedd i gychwyn busnesau, a mae'n galw am ganfyddiadau cymdeithasol positif ynghylch entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth dwf uchel yn gyfrannwr alleddol i gyflogaeth newydd mewn economi, a mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuraidd arloesol a thrawsffiniol.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru (WG) noddi cydran Gymreig y prosiect ymchwil GEM DU. Mae symbylu entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig i'r rhanbarth ac mae WG wedi arwain o ran sicrhau ei bod wedi'i hymgorffori o fewn ei gweithgareddau craidd. Dyma'r unfed flwyddyn ar ddeg lle mae WG wedi cymryd rhan yn GEM. O'r 300,000 o ymatebwyr i arolygon GEM DU ar gyfer y cyfnod 2002-2015, roedd mwy na 50,000 o ymatebwyr yn dod o Gymru. Erbyn hyn mae gan Gymru un o'r cronfeydd data mwyaf ar agweddau entrepreneuraidd, gweithgarwch a dyheadau yn rhanbarthoedd perifferol y DU ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal dadansoddiad tuedd ar gyfer is-boblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl iau neu hŷn, mewn cysylltiad â'r gwledydd cartref eraill.

Defnyddir y canlyniadau o ddadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol o gwmpas y byd. Hefyd maent yn galluogi i gymariaethau gael eu gwneud â rhanbarthoedd eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn GEM. Yn gyffredinol, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth ar dirwedd entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn golygu bod ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymgais ddifrifol i astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig ein bod yn deall yn well y penderfynyddion o entrepreneuriaeth gam cynnar, oherwydd mae tystiolaeth i awgrymu cysylltiad rhwng cyfraddau uwch o

entrepreneuriaeth a ffyniant economaidd cyffredinol, yn arbennig mewn economïau a yrrir gan arloesedd megis Cymru.

## Sut mae GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Mae GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuriaeth gam cynnar (a elwir yn TEA) trwy ddefnyddio'r ymagwedd ddilynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o hapsampl o'r boblogaeth o oedolion rhwng Mai a Medi.
- Y mynegai TEA yw'r cyfanswm o'r ymatebwyr hynny a ddosbarthir fel entrepreneuriaid cychwynnol[1] ac entrepreneuriaid cwmni newydd[2].

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw wedi'i seilio ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau maent yn eu sefydlu. Oherwydd hynny mae'n fesur unigryw y gellir ei gymharu ar lefel ryngwladol o duedd ddiwylliannol cenedl, neu ranbarth, i fod yn entrepreneuraidd.

Un dull o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw i ba raddau y seilir y gweithgarwch ar angen (h.y. nad oes unrhyw ddewisiadau amgen ar gyfer gwaith) neu gyfle (lle gallai entrepreneuriaid fanteisio ar y potensial ar gyfer creu marchnad newydd).

Ers 2011 mae gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith cyflogeion wedi'i fesur hefyd. Erbyn hyn gwyddom y gall diwylliant a rheoliadau effeithio ar sut mynegir gweithgarwch entrepreneuraidd o fewn cenhedloedd. Mewn gwledydd lle mae gan entrepreneuriaid lawer llai o fynediad at nawdd cymdeithasol na chyflogeion, er enghraifft, mae gweithgarwch

[1] Y cyfnod cynllunio gweithredol lle mae'r entrepreneur wedi gwneud rhwybeth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i gychwyn busnes newydd, busnes y bydd ef/hi yn berchen ar o leiaf rhan ohono, ac nad yw wedi talu cyflogau nag incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.

[2] Diffinir yr ail gyfnod fel un o 4 i 42 mis wedi i'r fenter newydd ddechrau darparu incwm i'r perchnogion. Cyfeirir at entrepreneuriaid sydd o leiaf yn berchen yn rhannol ar neu'n rheoli busnes newydd sydd wedi bod yn talu rhyw fath o incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 a heb fod yn fwy na 42 mis fel entrepreneuriaid cwmni newydd.

entrepreneuraidd yn tueddu i gynnwys cyfran uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cyffredinol[3].

Ar ben gweithgarwch, mae'r arolwg GEM yn gofyn i'r holl ymatebwyr am eu hagweddau at weithgarwch entrepreneuraidd, ac yn gofyn i entrepreneuriaid am eu dyheadau..

Esbonir y fethodoleg, meintiau samplau a systemau pwysoli a ddefnyddir ar gyfer yr arolwg poblogaeth oedolion GEM DU 2015 yn fanylach yn yr adroddiad GEM DU 2015 (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yng nghynllun y sampl yn 2010 pan ddewiswyd 10 y cant o ymatebwyr ym mhob Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth (GOR) ar hap o'r aelwydydd oedd â ffonau symudol ond heb linellau tir ffôn gosod. Yn 2015, cynyddwyd hyn at 20 y cant, yn unol ag amcangyfrifon diweddar o ran y gyfran o aelwydydd â ffôn symudol yn unig yn y DU.

Mae'r adroddiad dilynol yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganlyniadau, a themâu allweddol sy'n codi o'r arolwg GEM yn 2015 a'r dadansoddiad o'r un deg tri o flynyddoedd o ddata GEM (2002-15).

# Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar (Mynegai TEA)


Y gyfradd o entrepreneuriaeth gam cynnar yng Nghymru yn 2015 yw 6.8 y cant, nad yw'n wahanol iawn i'r amcangyfrif o 7.1 y cant yn 2014. Hefyd nid yw'r gyfradd yn wahanol iawn i'r rhai hynny yn y gwledydd cartref eraill, nag i amcangyfrif y DU o 7.1 y cant (Ffigur 1).

Yn gyffredinol, mae cyfradd TEA o 6.8 y cant yn gyfwerth i oddeutu un o bob pymtheg o oedolion 18-64 oed, neu oddeutu 126,000 o unigolion, 64 y cant ohonynt

[3] Bosma, N. et al. (2013) Adroddiad arbennig Monitor Entrepreneuriaeth y Byd ar weithgarwch entrepreneuraidd cyflogeion. Llundain: Cymdeithas Ymchwil Entrepreneuriaeth y Byd.

yn y camau cynnar iawn o gychwyn busnes (entrepreneuriaid cychwynnol 4.3%) a'r gweddill yw'r rhai hynny oedd â busnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r Boblogaeth o Oedolion 18-64 oed
**Below:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU





**Ffigur 1: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar (TEA) yng Ngwledydd Cartref y DU 2015** (Ffynhonnell: GEM APS)

Fel mae Ffigur 2a yn ei ddangos, fe wnaeth y gyfradd o weithgarwch entrepreneuraidd gam cynnar yng Nghymru, fel y y DU, aros yn gymharol wastad rhwng 2004 a 2010, yn codi'n eithaf cyflym wedyn. Fe wnaeth y gyfradd yng Nghymru ddisgyn yn 2012 gan ddisgyn ymhellach tuag at y gyfartaledd rediad hir yn 2013; hefyd fe wnaeth cyfradd y DU ostwng rhwng 2012 a 2013. Roedd adferiad mewn cyfraddau TEA yng Nghymru a'r DU fel ei gilydd yn 2014, a chydgyfeiriad yn 2015, yn cau'r bwlch a welid ers 2012.

Yn 2015 y gyfradd weithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru oedd 4.3 y cant, bron yn ddigyfnewid o 4.1 y cant yn 2014. Roedd y gyfradd fusnes newydd i lawr ychydig, ond nid yn sylweddol, o 3.2 y cant yn 2014 i 2.5 y cant yn 2015. Fe wnaeth y cyfraddau cychwynnol ac entrepreneuriaeth newydd ostwng yn y DU rhwng 2014 a 2015; y gyfradd gychwynnol yn syrthio o 4.9 y cant i 4.0 y cant a'r gyfradd berchennog busnes newydd yn gostwng o 3.8 y cant i 3.1 y cant.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r Boblogaeth o Oedolion 18-64 oed

**Top:** Cymru; DU.




**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-15).** (Ffynhonnell: GEM APS)

Ers 2010 mae cyfraddau TEA Dwyrain a Gorllewin Cymru wedi dargyfeirio (Ffigur 2b) er nad yw'r bwlch rhwng y ddau erioed wedi bod yn arwyddocaol o ran ystadegau. Yn 2015 mae cyfraddau entrepreneuraidd Dwyrain a Gorllewin Cymru wedi cydgyfeirio, gyda'i gilydd a gyda chyfradd y DU ill dau. Efallai fod y pwynt uchaf ymddangosiadol mewn gweithgarwch entrepreneuraidd yn Nwyrain Cymru yn 2009 yn anomaledd oherwydd maint bach y sampl.






**TABLE ABOVE: Left side**: % o'r Boblogaeth o Oedolion 18-64 oed. **Above:** Dwyrain Cymru; Gorllewin Cymru; Cymru; DU

**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU (2002-15).** (Ffynhonnell: GEM APS)

TEA a yrrwyd gan angen yng Nghymru yn 2015 oedd 1.4 y cant, yn union fel yn 2014. TEA a yrrwyd gan gyfle oedd 5.4 y cant, bron yn ddigyfnewid o'r amcangyfrif o 5.6 y cant yn 2014. TEA a yrrwyd gan angen fel cyfran o'r holl TEA oedd 20 y cant, gyfran is nag yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r DU (Ffigur 3).

**TABLE BELOW: Left side**: % o Berchnogion Busnes Cychwynnol a Newydd
**Top:** Cyfle; Angen; Arall

**Below:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU



**Ffigur 3: Entrepreneuriaeth Cyfle ac Angen yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS 2015)


# Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?

**Rhyw:** Yn 2015 roedd gan ddynion gyfradd TEA sylweddol uwch na menywod yn yr holl wledydd cartref, ac eithrio'r Alban; roedd yr olaf oherwydd cyfradd gymharol is ar gyfer dynion a chyfradd gymharol uwch ar gyfer menywod (Ffigur 4). Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar draws y gwledydd cartref naill ai yn y cyfraddau TEA ar gyfer dynion neu fenywod.

O gofio'r cyfraddau tebyg ar draws y gwledydd cartref, mae'r gymhareb o weithgarwch entrepreneuraidd gam cynnar ar gyfer menywod i ddynion hefyd yn eithaf cyson, â'r Alban yn unig yn wahanol. Mae'r gymhareb yng Nghymru'n aros ar 52 y cant yn 2015 o gymharu â chymhareb DU o 49 y cant. Mae'r gymhareb yn yr Alban yn sylweddol uwch ar 77 y cant. Gall cymarebau blynyddol amrywio o flwyddyn i flwyddyn, fodd bynnag mae'r cymarebau rhediad hir dros y cyfnod 2002 i 2015 yn awgrymu bod gan Gymru gymhareb debyg, ar 54 y cant, â Lloegr (49 y cant) a'r Alban (53 y cant) ond yn uwch na Gogledd Iwerddon (36 y cant).

**TABLE BELOW: Left side**: % o Berchnogion Busnes Cychwynnol a Newydd
**Top:** gwryw; benyw


**Below:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU



**Ffigur 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yn ôl Rhyw yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS 2015)

Fe wnaeth y gyfradd TEA ar gyfer menywod ddisgyn o bwynt uchaf o 6.1 y cant yn 2011 i'w chyfartaledd rediad hir o oddeutu 4.0 y cant yn 2012 a 2013. Ers hynny mae wedi dringo at ychydyg o dan 5 y cant (Figur 5). Hefyd syrthiodd cyfradd TEA Cymru ar gyfer dynion yn sylweddol o 10.1 y cant i 6.5 y cant rhwng 2011-13 ond erbyn 2015 roedd wedi ymsefydlu ar oddeutu 9 y cant. Gallwn weld yn Ffigur 5 bod cyfraddau TEA benyw yng Nghymru, am y rhan fwyaf, wedi cyfateb â'r duedd yn y DU, ag ychydig o ddargyfeirio dros 2011-13; fodd bynnag, y duedd dymor canolig ar gyfer y ddwy yw tuag i fyny.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r Boblogaeth o Oedolion 18-64 oed. **Above:** Cymru; DU




**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yng Nghymru a'r DU, 2002-2015.** (Ffynhonnell: GEM APS)


**Oedran:** Fel mae Ffigur 6 yn ei ddangos, yn y DU mae unigolion yn y bandiau oedran canol yn arddangos y gyfradd uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd gam cynnar; mae'r gyfradd ar gyfer pobl 35-44 oed yn sylweddol uwch nag ar gyfer pobl 18-24 oed a phobl 55-64 oed. Ailadroddir hyn yn Lloegr ond nid yw'n gyson ar draws y gwledydd cartref eraill; yn yr Alban mae'r gyfradd ar gyfer pobl 35-44 ond ychydig yn uwch na'r un ar gyfer pobl 55-64 oed, ac yng Ngogledd Iwerddon nid yw'r cyfraddau'n wahanol iawn ar draws y bandiau oedran. Ers sawl blwyddyn, mae'r

dosbarthiad o'r gyfradd TEA yn ôl oedran wedi bos yn symud tuag at genhedlaeth iau yng Nghymru; yn 2015 mae pobl 25-34 oed yn arddangos y cyfraddau TEA uchaf, fodd bynnag nid yw'r rhain yn sylweddol wahanol i unrhyw grwpiau oedran eraill.

Yn 2015 y gyfradd TEA ar gyfer pobl 18-24 oed yng Nghymru oedd 5.9 y cant o gymharu â chyfradd o 3.9 y cant yn y DU (Ffigur 7). Mae'r ddwy gyfres wedi cydgyfeirio eto mewn blynyddoedd diweddar; nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy yn 2015 yn ystadegol arwyddocaol. Gallai'r gyfradd uwch o weithgarwch entrepreneuraidd gam cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad awgrymu hinsawdd economaidd wytnach na gweddill y DU, â'r diffyg swyddi'n golygu bod angen mynd yn hunangyflogedig, sydd erbyn hyn wedi lleihau wrth i'r economi adfer. Fel arall gallai adlewyrchu'r ddarpariaeth gynyddol o weithgareddau entrepreneuriaeth ieuenctid gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn.


**TABLE BELOW: Left side**: % Grŵp Oedran
**Top:** 18-24blwydd; 25-34blwydd; 35-44blwydd; 45-54blwydd; 55-64blwydd.

**Below:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU




**Ffigur 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yn ôl Oedran yng Ngwledydd Cartref y DU, 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS)


**TABLE BELOW: Top:** Cymru; DU.




**Ffigur7: Y duedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU, 2002 i 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 i 2015)


Dadansoddiad a allai fod yn fwy defnyddiol yw asesu sut mae'r gyfradd TEA wedi newid yn y grŵp oedran 18 i 29 (lle ymddengys fod toriad naturiol o ran data gweithgarwch y DU) a chymharu hynny â'r grŵp oedran 30 i 64. Mae Ffigurau 8 a 9 yn dangos, o gymharu â'r gwledydd cartref eraill, bod y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifanc yng Nghymru wedi bod yn gymharol uchel ers 2008, ar bod gostyngiad wedi digwydd yn 2013. Mewn cyferbyniad, mae'r gyfradd TEA ymhlith pobl 30 i 64 oed wedi bod yn gyson is na'r un ar gyfer Lloegr, a chyfartaledd y DU. Yn 2015 nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y gwledydd cartref yn y grŵp oedran 18 i 29 nag yn y grŵp oedran 30-64, ac nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol ychwaith rhwng y ddau grŵp oedran.

**TABLE BELOW: Left side**: % o bobl 18-29 oed
**Top:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU




**Ffigur 8: Y duedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yn y Gwledydd Cartref ar gyfer pobl 18 i 29 oed, 2002 i 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 to 2015)

**TABLE BELOW: Top:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU





**Ffigur 9: Y duedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yn y Gwledydd Cartref ar gyfer pobl 30 i 64 oed, 2002 i 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 to 2015)

**Addysg:** Y gyfradd TEA ar gyfer graddedigion yn y DU yn 2015 oedd 9.8 y cant a oedd yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer pobl heb radd ar 5.5 y cant (Ffigur 10); hefyd roedd y gyfradd ar gyfer pobl heb radd yn sylweddol is nag yn 2014 (7.4%). Hefyd, y gyfradd ar gyfer graddedigion Cymreig yn 2015 oedd 9.8 y cant o gymharu â'r un ar gyfer pobl heb radd o 5.2 y cant; eto mae'r gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol, er nad oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y naill cyfradd na'r llall o gymharu â 2014. Cymru a Lloegr oedd yr unig ddwy wlad gartref lle roedd y cyfraddau TEA ar gyfer graddedigion yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer pobl heb radd yn 2015.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r Boblogaeth o Oedolion 18-64 oed. **Above:** graddedigion; heb radd.

**Below:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU




**Ffigur 10: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Gam Cynnar yn y Gwledydd Cartref yn ôl Staws Graddio, 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agweddol sy'n darparu dirprwy ar gyfer potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod person sydd wedi cychwyn busnes yn y 2 flynwedd diwethaf, canfyddiad o

gyfleoedd da ar gyfer cychwyn, hunan-gred o ran meddu ar y sgiliau perthnasol i sefydlu busnes a chyffredinolrwydd ofn methu fel rhwystr i sefydlu busnes.


Mae'n well trin data agweddol GEM ar y lefel grŵp yn hytrach na'r lefel unigol, gan y gallai unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid deimlo bod rhaid iddynt ddarparu atebion positif yn yr Arolwg Poblogaeth Oedolion (APS). Felly, fel sy'n wir am y nifer ddiwethaf o flynyddoedd, rydym yn adrodd am ddata agweddol dim ond ar gyfer y gyfran honno o'r boblogaeth nad ydynt eisoes yn entrepreneuriaid.

Yng Nghymru yn 2015, mae un chwarter o unigolion yn datgan eu bod yn adnabod entrepreneur sydd oddeutu'r un gyfran â'r DU gyfan (Ffigur 11), a heb fod yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol. Mae dau o bob pump (38.9%) o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes – eto'n debyg i gyfartaledd y DU ar 37.5 y cant. Y prif wahaniaeth rhwng Cymru a'r DU yw'r gyfran sylweddol is o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru sy'n credu bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal yn y chwe mis nesaf. Er gwaethaf y bwlch hwn, nid oes unrhyw wahaniaeth o ran y cyfraddau ofn methu.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r Boblogaeth nad ydynt yn Entrepreneuraidd.

Top: Cymru; DU.

Below: 1) Rwyf yn adnabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes yn y 2 flynedd diwethaf; 2) Mae cyfleoedd cychwyn da lle rwyf yn byw yn y 6 mis nesaf; 3) Mae gennyf y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i gychwyn busnes; 4) Byddai ofn methu'n fy atal rhag cychwyn busnes (ar gyfer y rhai hynny sy'n cytuno bod cyfleoedd cychwyn da'n bodoli).




**Ffigur 11: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd yng Nghymru a'r DU 2015** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae Ffigur 12 yn arddangos yr agweddau tuag at entrepreneuriaeth pan y'i cyfyngir i bobl 18-24 oed yn unig. Yr unig wahaniaeth sylweddol o ran agweddau rhwng Cymru a'r DU yw'r gyfran uwch o'r rhai hynny yng Nghymru sy'n adnabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes, ar 35.5 y cant o gymharu â 28.3 y cant yn y DU.

Wrth gymharu agweddau pobl ifanc yn ôl yr holl bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid (fel a ddangosir yn Ffig. 11) mae cyfran sylweddol uwch o bobl ifanc yng Nghymru'n adnabod entrepreneur, ar 35.5 y cant o gymharu â 24.8 y cant ar gyfer y boblogaeth ehangach nad ydynt yn entrepreneuriaid. Yn y DU mae cyfran sylweddol is o bobl ifanc yn credu bod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i gychwyn busnes; dim ond 30.3 y cant oedd yn cytuno â'r datganiad hwn o gymharu â 37.5 y cant o'r holl bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn y DU.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r Boblogaeth nad ydynt yn Entrepreneuraidd.


Top: Cymru; DU.

Below: 1) Rwyf yn adnabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes yn y 2 flynedd diwethaf; 2) Mae cyfleoedd cychwyn da lle rwyf yn byw yn y 6 mis nesaf; 3) Mae gennyf y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i gychwyn busnes; 4) Byddai ofn methu'n fy atal rhag cychwyn busnes (ar gyfer y rhai hynny sy'n cytuno bod cyfleoedd cychwyn da'n bodoli).

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r Boblogaeth nad ydynt yn Entrepreneuraidd.

**Top:** Cymru; DU.

**Below:** 1) Rwyf yn adnabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes yn y 2 flynedd diwethaf; 2) Mae cyfleoedd cychwyn da lle rwyf yn byw yn y 6 mis nesaf; 3) Mae gennyf y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i gychwyn busnes; 4) Byddai ofn methu'n fy atal rhag cychwyn busnes (ar gyfer y rhai hynny sy'n cytuno bod cyfleoedd cychwyn da'n bodoli).




**Ffigur 12: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU 2015.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2015)

Roedd y gyfran o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru sy'n gweld cyfleodd da i gychwyn busnes ond yn adrodd y byddai ofn methu'n eu hatal rhag cychwyn busnes yn sefyll ar 31.9 y cant yn 2015, a oedd i lawr, heb fod yn sylweddol is, ar 2014. Y gyfradd ar gyfer y DU oedd 39.7 y cant, ond heb fod yn wahanol iawn i Gymru. Mae Ffigur 13 yn dangos bod yr ofn methu wedi codi'n fwy trawiadol yng Nghymru na mewn gwledydd cartref eraill ers i'r dirwasgiad ddechrau yn 2008, ond yn ystod blynyddoedd diweddarach mae wedi disgyn yn unol â'r rhai

eraill. Yn 2015 Gogledd Iwerddon oedd yr unig wlad gartref â chyfradd ofn methu sylweddol uwch na Lloegr.

**TABLE BELOW: Left side**: % o bobl nad ydynt yn Entrepreneuriaid 18-64 oed sy'n gweld cyfleoedd ond sy'n ofni methu.
**Top:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU.






**Figure 13: Ofn Methu ymhlith y rhai hynny sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd Cartref y DU, 2002-15.** (Ffynhonnell: GEM APS 2002-15)

Yn arolwg 2015, fe wnaeth 29.6 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru gytuno bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf, o gymharu â 37.6 y cant yn y DU. Nid oedd y naill na'r llall yn wahanol iawn i'w hamcangyfrifol priodol yn 2014, fodd bynnag mae'r bwlch sylweddol o ran canfod cyfle rhwng Cymru a'r DU yn dal i fodoli (Ffigur 14).
**TABLE BELOW: Left side**: % o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd.
**Top:** Cymru; DU.





**Ffigur 14: Canfyddiad o Gyfleoedd Cychwyn Busnes yng Nghymru a'r DU, 2002-15.** (Ffynhonnell: GEM APS 2002-15)

O edrych tua'r dyfodol, fe wnaeth y gyfran o oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru sy'n disgwyl cychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf aros bron yn ddigyfnewid ar 8.0 y cant yn 2015 (Ffigur 15). Fe wnaeth amcangyfrif y DU godi i 9.6 y cant yn 2015 ond nid oedd hwn yn newid sylweddol. Hefyd roedd cynnydd o ran y cyfraddau bwriadau hyn yn ystod y dirwasgiad, fodd bynnag mae'n debygol bod hynny'n adlewyrchu rhesymau o angen; yn 2015 mae'n debygol, yn wyneb economi sy'n gwella, bod hyn yn cynrychioli'r posibilrwydd o fwy o entrepreneuriaeth oherwydd cyfle.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd.

**Top:** Cymru; DU.





**Ffigur 15: Disgwyliadau Cychwyn Busnes y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU ymhlith y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd, 2002-15.** (Ffynhonnell: GEM APS 2002-15)

Yn 2015, roedd y gyfran o ddynion nad oedd yn entrepreneuraidd-weithredol oedd yn adrodd eu bod yn bwriadu cychwyn busnes yn y tair blynedd nesaf yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer menywod (Ffigur 16) ar 10.2 y cant ar gyfer dynion a 5.9 y cant ar gyfer menywod. Wedi'i dehongli'n gymhareb menywod i ddynion mae hyn yn gyfwerth i 58 y cant; sy'n cymharu â 63 y cant yn Lloegr, 54 y cant yn yr Alban a dim ond 43 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, nid oedd bwriadau cychwyn busnes ar gyfer dynion a menywod fel ei gilydd yn y gwledydd cartref yn wahanol iawn i'r rhai hynny yn 2014.

**TABLE BELOW: Left side**: % o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd. 18-64 oed.

**Top:** gwryw; benyw

**Below:** Lloegr; Cymru; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; DU.



**Ffigur 16: Disgwyliadau Cychwyn Busnes y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Ngwledydd Crtref y DU yn ôl Rhyw, 2015** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Rhuglder Iaith Gymraeg a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn 2015 ynn nghyfraddau TEA y rhai hynny yng Nghymru oedd yn rhugl yn y Gymraeg lafar ac ysgrifenedig (7.3%); a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (7.3%), a'r rhai gynny nad oedd ganddynt unrhyw neu ond ychydig o sgiliau Cymraeg (6.4%).

# Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Yn 2015 fe wnaeth arolwg GEM ofyn i bobl 18-29 oed a oeddynt erioed wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dysgu entrepreneuraidd fel rhan o'u haddysg ar lefel gynradd neu uwchradd. Yng Nghymru dywedodd 35.5 y cant eu bod wedi cymryd rhan yn y fath weithgareddau, o gymharu â 33.9 y cant yn Lloegr, 40.1 y cant yn yr Alban a 44.4 y cant yng Ngogledd Iwerddon.

Hefyd gofynnwyd i'r un grŵp oedran a oeddynt erioed wedi cymryd rhan yn y fath weithgarwch entrepreneuraidd ymarferol mewn coleg neu brifysgol wedi gadael yr ysgol. Eto, roedd y cyfrannau'n debyg ar draws y gwledydd cartref, ar 28.7 y cant

yng Nghymru o gymharu â 26.6 yn Lloegr, 28.9 y cant yn yr Alban a 29.3 y cant yng Ngogledd Iwerddon.

Roedd ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd entrepreneuraidd yn y DU yn 2015 hefyd yn gyson ar draws y gwledydd cartref. Roedd ychydig o dan un o bob deg o bobl (8.4 y cant) yn y DU wedi clywed am Wythnos Entrepreneuraidd y Byd yn 2015; y gyfran yng Nghymru oedd 9.7 y cant, cyfran Gogledd Iwerddon oedd 9.6 y cant; Lloegr 8.3 y cant a'r Alban 8.1 y cant. Roedd cyfrannau tebyg hefyd wedi clywed am Ddydd Sadwrn Busnesau Bach a'r Ymgyrch Prydain Fawr.

# Sylwadau Terfynol

Mae'r optimistiaeth ynghylch yr economi Cymreig a welwyd yn 2014 wedi parhau drwodd i 2015, â'r gyfradd TEA yn aros ar oddeutu 7 y cant a bwriadau cychwyn busnes yn dal ar 8 y cant. Yn ystod blynyddoedd diweddar mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru wedi'i ganolbwyntio ymhlith y grwpiau oedran iau, yn rhannol oherwydd rhesymau angen yn ystod y dirwasgiad a mwy o ffocws gan y Llywodraeth ar entrepreneuriaeth ieuenctid, fodd bynnag yn 2015 mae'r holl grwpiau oedran yn gyfwerth debygol o fod yn entrepreneuraidd. Ar ben hynny mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru'n debyg i'r lefel a welir yn y DU gyfan, yn arbennig o ran rhyw ac oedran.

Mae'r metrigau agwedd eto'n dangos teimladau positif tuag at entrepreneuriaeth yn 2015, gydag ychydig o dan ddau o bob pump o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn datgan bod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i gychwyn busnes. Lle mae agwedday'n dargyfeirio o'r DU yw'r gyfran sy'n credu bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn bodoli'n lleol o fewn y chwe mis nesaf. Mae'r gyfradd ar gyfer Cymru wedi cynyddu'n sylweddol ers 2010 ond mae'n gyson is na'r un ar gyfer y DU. Gallai hyn awgrymu problemau gwahanol ynghylch galw lleol yng Nghymru neu yn yr amodau y canfyddir bod eu hangen ar gyfer sefydlu busnes llwyddiannus.

Er gwaethaf y bwlch â'r DU ynghylch canfod cyfle, mae ofn methu'n dal i fod yn ddigyfnewid yng Nmhymru a mae'n cymharu'n dda â'r gyfradd yn y DU. Mae'r ffaith ei fod wedi disgyn o oddeutu 20 pwynt canran o'i frig yn 2011 yn cadarnhau'r hyder o fewn y boblogaeth o'r gallu i gychwyn busnes llwyddiannus.

# Ymwrthodiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a'r tîm GEM DU; mae'r cyfrifoldeb am ddadansoddi a dehongli'r data'n gyfrifoldeb unigol yr awduron.

**I gael rhagor o wybodaeth ar y prosiect GEMDU, cysylltwch â:**

Karen Bonner
Grŵp Economeg, Cyllid ac Entrepreneuriaeth
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-bost: k.bonner1@aston.ac.uk

Aston Business School

Yr Athro Mark Hart
Grŵp Economeg, Cyllid ac Entrepreneuriaeth
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
Email: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School

Yr Athro Jonathan Levie
Canolfan Entrepreneuriaeth Hunter ,
Prifysgol Strathclyde,
Livingstone Tower, 26 Richmond Street,
Glasgow, G1 1XH

E-bost: j.levie@strath.ac.uk

University of Strathclyde Business School